**Diweddariad o’r Ymateb i’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Tachwedd 2009, gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Tachwedd 2009**

Derbyniwyd llawer o’r argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ei Adroddiad yn 2008 gan eu bod yn adlewyrchu gweithgarwch polisi presennol neu arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn uniongyrchol. Yn fwyaf arbennig, mewn ymateb i Argymhelliad 3, sy’n ymwneud â’r galw am Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru, yn dilyn y gwerthusiad presennol o effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad ar dlodi plant bwriedir dechrau ar y gwaith o ddatblygu Strategaeth newydd.

Mae’r ymatebion i argymhellion yr adroddiad wedi cael eu diweddaru ac fe’u hamlinellir isod.

**Argymhelliad 1**
**Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau mwy o adnoddau mewnol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cydgysylltu polisïau sy'n effeithio ar dlodi plant. Dylai hyn gynnwys mwy o staff ar gyfer ei Huned Tlodi Plant i gydgysylltu polisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi plant. Hefyd, dylai gynnwys uwch swyddog arweiniol polisi, ym mhob Adran, i fod yn gyfrifol am gyflawni targedau adrannol perthnasol o fewn *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant*.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Uned Tlodi Plant, yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn gyfrifol am gydgysylltu ymateb polisi Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi plant ac mae’n cefnogi'r Gweinidog yn ei arweiniad trawsadrannol ar dlodi plant. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Uned yn gyfrifol am brif ffrydio materion tlodi plant ym meysydd polisi a strategaeth Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi gwaith y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant a sefydlwyd o ganlyniad i ymrwymiad *Cymru'n Un* yn Ebrill 2008.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd datblygu a chyflwyno polisi cydgysylltiedig, ac mae wedi cymryd camau yn genedlaethol, drwy sefydlu Pwyllgor Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc, sy’n cael ei gadeirio gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau trawsbynciol dros blant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfrifoldebau sy’n ymwneud â thlodi plant, yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol yn y Llywodraeth yn gyffredinol. Sefydlwyd grŵp cymorth o uwch swyddogion o'r adrannau polisi perthnasol dan gadeiryddiaeth Gweinidog i gefnogi gwaith Pwyllgor y Cabinet.

Yn ogystal, ac er mwyn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni polisïau a rhaglenni allweddol sy'n ymwneud â thlodi plant, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol wedi sefydlu Grŵp Cyflawni Tlodi Plant, sy'n cynnwys uwch swyddogion o holl Adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Cadeirir y Grŵp Cyflawni, a ddaeth ynghyd am y tro cyntaf ar 1 Rhagfyr 2008, gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Ei ddiben yw

- archwilio a monitro'r gwaith o gyflawni'r polisïau a'r rhaglenni hynny sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar leihau tlodi plant yng Nghymru;

- monitro camau gweithredu ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad wrth ddatblygu ymrwymiadau penodol yn *Cymru'n Un* sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru;

- monitro'r cynnydd a wna Llywodraeth y Cynulliad wrth gyflawni'r targedau trawsbynciol a nodir yn *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru: Mesur Llwyddiant*;

- hwyluso camau gweithredu trawsadrannol er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant a hyrwyddo strategaeth gydlynus i leihau tlodi plant yng Nghymru.

Mae uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am y targedau Adrannol a geir yn *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru: Mesur Llwyddiant* yn cael eu cynrychioli yn y Grŵp Cyflawni.

Yn ogystal, mae pennaeth yr Uned Tlodi Plant yn cadeirio Tîm Dadansoddi Tlodi Plant, tîm amlddisgyblaethol sydd â rôl allweddol yn y gwaith o fonitro targedau tlodi plant Llywodraeth y Cynulliad a sicrhau tystiolaeth sylfaenol gadarn ar gyfer gwaith parhaus Llywodraeth y Cynulliad ym maes tlodi plant. Mae gan y grŵp hwn ran allweddol i'w chwarae wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad, sy'n ofynnol dan y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Tachwedd 2009.

Er mai uned fach yw'r Uned Tlodi Plant mae'n ceisio sicrhau adnoddau dadansoddi ac adnoddau polisi ychwanegol o bob rhan o Lywodraeth y Cynulliad yn ôl yr angen. Er enghraifft, sicrhawyd adnodd canolog gan y tîm deddfwriaeth a phrosiectau â blaenoriaeth, ac mae wedi bod yn cydgysylltu'r gwaith er mwyn cefnogi'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru).

Crëwyd swydd ychwanegol hefyd yn yr Uned Tlodi Plant er mwyn helpu i gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) ac, yn fwyaf arbennig, er mwyn datblygu Strategaeth Tlodi plant statudol newydd a'i hadolygu'n barhaus.

Bydd trefniadau staffio'r Uned Tlodi Plant yn y dyfodol yn cael eu hadolygu gan ystyried baich ychwanegol yn y ffordd arferol.

Mae adrannau eraill yn Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cymryd camau er mwyn prif ffrydio gweithgareddau i fynd i'r afael â thlodi plant yn eu gwaith. Er enghraifft, mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi penodi Arweinydd Tlodi Plant yn ei Huned Strategaeth i gydgysylltu gweithgareddau sy'n ymwneud â thlodi plant ym mhob rhan o'r adran.

**Goblygiad Ariannol:** Gellir talu am y staff presennol ar gyfer yr Uned Tlodi Plant o gyllideb Costau Rhedeg Adrannol yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Bydd costau rhedeg ar gyfer y dyfodol yn cael eu pennu yn y ffordd arferol.

**Argymhelliad 2**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau cyfranogiad gweithwyr proffesiynol rheng flaen (gan gynnwys undebau'r athrawon) cyn gynted â phosibl yn y broses datblygu polisi, yn hytrach na dim ond trwy ymgynghori ffurfiol ar ôl datblygu polisi.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn cysylltiad agos ag undebau'r athrawon wrth iddi ddatblygu polisi.

Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau yn cyfarfod yn rheolaidd â holl undebau'r athrawon fel rhan o'u hymgysylltiad strategol parhaus â rhanddeiliaid allweddol. Rhydd y cyfarfodydd hyn gyfle i'r Gweinidog drafod â gweithwyr proffesiynol rheng flaen cyn y cam ymgynghori. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyfnod Sylfaen yn darparu model gweithio sy'n sicrhau bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn cael eu cynrychioli ym maes datblygu polisi a gweithredu. Atgynhyrchwyd y model hwn gan y Grŵp Gweithredu 14-19, sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr gweithwyr proffesiynol rheng flaen.

Yn ogystal, mae Cyfarwyddwr APADGOS yn cyfarfod undebau'r gweithlu'n rheolaidd i drafod materion penodol, ac mae wedi ymrwymo i gynnal cyfarfodydd rheolaidd bob tymor i drafod materion yr hoffai'r undebau eu codi. Ceir cytundeb y bydd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn ymgysylltu â'r undebau ar sail debyg a, lle y bo'n bosibl, caiff polisïau eu datblygu mewn partneriaeth yn gynnar yn y broses.

Mae Pennaeth yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol hefyd yn cyfarfod holl undebau'r athrawon yn rheolaidd i gynnal trafodaethau a cheisio'u cynnwys mewn gwaith datblygu polisi parhaus.

**Goblygiad Ariannol:** Dim. Telir am hyn drwy gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 3**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi Strategaeth a Chynllun gweithredu Tlodi Plant wedi'u diweddaru a'u hailwampio, gan ystyried mentrau newydd a newidiadau mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes, megis Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Nesaf.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth sydd yn ei gallu i gefnogi nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ddileu tlodi plant erbyn 2020 a’i haneru (ar sail cyfradd 1997) erbyn 2010. Cynhwyswyd yr ymrwymiad hwn yn *Cymru’n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru*.

Bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Tachwedd 2009, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth newydd (yn 2010) er mwyn helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Bydd y strategaeth hon yn adeiladu ar strategaeth bresennol Llywodraeth y Cynulliad, *Dyfodol Teg i’n Plant*, a gyhoeddwyd yn 2005. Bydd hefyd yn adeiladu ar weithredoedd blaenorol er mwyn pennu’r cyfeiriad strategol ar gyfer dileu tlodi plant yng Nghymru, a chyrraedd targed heriol 2020.

Mae gwaith paratoawl ar gyfer y Strategaeth wedi dechrau. Mae’r Gweinidogion yn awyddus i sicrhau bod y Strategaeth Tlodi Plant newydd ar gyfer Cymru’n seiliedig ar dystiolaeth briodol ac yn canolbwyntio ar y meysydd polisi hynny y gwyddom eu bod yn debygol o allu cyfrannu mwy tuag at ein hamcanion tlodi plant. Darperir cefnogaeth ddadansoddol er mwyn datblygu’r Strategaeth Tlodi Plant newydd gan y Tîm Dadansoddi Tlodi Plant, y mae ei aelodau’n cynnwys ymchwilwyr cymdeithasol, ystadegwyr ac economegwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â swyddogion polisi arweiniol ym maes tlodi plant.

Ymgymerwyd â dadansoddiad manwl er mwyn canfod y meysydd polisi (sy’n rhan o gylch gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru) sydd fwyaf tebygol o helpu i leihau nifer y plant sy’n byw mewn tlodi yng Nghymru. Rhagwelir mai’r meysydd polisi hyn fydd y ‘blociau adeiladu’ ar gyfer y Strategaeth newydd.

Mae gwaith wedi’i wneud hefyd er mwyn mapio canlyniadau gwerthuso rhaglenni tlodi plant presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad yn *Cymru’n Un* i gynnal ‘adolygiad grymus a fydd yn gwerthuso canlyniadau rhaglenni yn erbyn tlodi yng Nghymru’. Cyhoeddir adroddiad synthesis tua diwedd 2009 a fydd yn tynnu sylw at brif ganfyddiadau’r adolygiad hwn.

Mae gwerthusiad o Raglenni a Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y Cynulliad wedi’i gwblhau gan yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol (Swyddfa’r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol gynt). Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dau edefyn:

- Casglu gwybodaeth am werthusiadau presennol o raglenni gwrthdlodi ar gyfer plant yng Nghymru, a thynnu sylw at ganfyddiadau allweddol (a/neu ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg).
- Datblygu fframwaith gwerthuso a chynigion ar gyfer gwerthuso'r strategaeth newydd ar dlodi plant. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud gan yr Athro Edward Melhuish o Goleg Birkbeck.

Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad maes o law.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu saith nod craidd sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar gyfer ei holl waith sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Bydd y Strategaeth Tlodi Plant newydd yn cael ei strwythuro yn unol â'r nodau trawsbynciol hyn. Yn ychwanegol at hyn, bydd y Strategaeth newydd yn seiliedig ar gyfres o amcanion (wedi'u dewis gan Weinidogion Cymru) sy'n ymwneud â phob un o'r nodau eang sydd yn Adran 1 o'r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae'r nodau eang sydd yn y Mesur yn cael eu hystyried fel y rhai pwysicaf ar gyfer y nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Dechreuodd y broses o gytuno ar yr amcanion polisi hyn yn Hydref 2009. Mae'r broses yn seiliedig ar ymgynghori helaeth ar draws Adrannau Llywodraeth y Cynulliad (oherwydd eu natur drawsbynciol) a bydd yr amcanion yn sail ar gyfer drafftio penodau unigol y Strategaeth. Awgrymir y dylai'r amcanion a ddewisir ac y cytunir arnynt gan Weinidogion portffolio fod yn gydnaws â'r 'blociau adeiladu' polisi a amlygwyd fel y rhai mwyaf effeithiol yn dilyn y gwaith casglu tystiolaeth o dlodi plant.

**Goblygiad Ariannol: Gellir talu costau datblygu'r Strategaeth Tlodi Plant newydd ar gyfer Cymru drwy ddefnyddio adnoddau cytunedig ar gyfer yr Uned Tlodi Plant yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.**

**Argymhelliad 4**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn dangos ymrwymiad clir i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu prawfesur o safbwynt tlodi plant. Dylai hyn gynnwys:**
**a) cyhoeddi targedau blynyddol penodol ar gyfer pob Portffolio Gweinidogol, i fynd i'r afael â thlodi plant;**
**b) cyhoeddi cynnydd pob portffolio Gweinidogol tuag at gyflawni'r targedau hyn bob blwyddyn;**
**c) cynnal trafodaeth flynyddol wedi'i threfnu, yn amser y Llywodraeth, ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad tuag at fodloni'r targedau hyn.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Yn 2006, ac er mwyn datblygu cynnig polisi penodol yn y Cynllun Gweithredu Tlodi Plant, cynhwyswyd cwestiynau penodol ar yr effaith ar blant a chymunedau difreintiedig yn Offeryn Porth i Bolisïau Llywodraeth y Cynulliad.

Rhaid i holl bolisïau strategol Llywodraeth y Cynulliad gwblhau'r broses Porth i Bolisïau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet. Diwygiwyd yr Offeryn Porth i Bolisïau yn ddiweddar i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn *Cymru'n Un*. Bu swyddogion yr Uned Tlodi Plant yn cysylltu â chydweithwyr yn yr uned Polisi Strategol er mwyn sicrhau bod fersiwn terfynol yr Offeryn yn dal i gynnwys cwestiynau penodol i asesu'r effaith ar dlodi plant. Mae hefyd yn werth nodi mai tlodi plant yw un o'r materion trawsbynciol penodol y tynnir sylw ato yn yr Offeryn Porth ac mae Swyddogion yr Uned Tlodi Plant ar y rhestr o unigolion yr awgrymir y dylid eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses Porth i Bolisïau. Yn ogystal, mae'r Uned Tlodi Plant yn prawfesur o ran tlodi plant nifer o bolisïau a rhaglenni eraill yr ymgynghorir â hi yn eu cylch gan bob rhan o Lywodraeth y Cynulliad.

Ym mis Hydref 2006 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei cherrig milltir ar gyfer 2010 a'i thargedau trawsbynciol ei hun ar dlodi plant ar gyfer 2020 yn *Dileu Tlodi Plant - Mesur Llwyddiant*. Mae'r targedau, sy'n seiliedig ar 31 dangosydd, yn rhychwantu nifer o bortffolios Gweinidogol sy'n ymdrin ag Incwm a Gwaith, Addysg, Iechyd a Thai.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau trawsbynciol ac mae wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiad cyntaf Monitor Plant a Phobl Ifanc Cymru ar 20 Tachwedd 2008 sy'n cyflwyno adroddiad yn erbyn y targedau ac, yn hollbwysig, yn nodi'r cynnydd o ran dileu tlodi plant yng nghyd-destun ehangach lles plant. Caiff y Monitor ei gyhoeddi eto yn 2010 ac ar ôl hynny i gyd-daro â chylch adrodd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Yn ogystal, ar 25 Tachwedd 2008, cyhoeddwyd adroddiad newydd ar wefan *Ystadegau Cymru* Llywodraeth y Cynulliad sy'n adrodd ar gynnydd o ran cyflawni targedau tlodi plant. Yn hollbwysig, bydd gwefan *Ystadegau Cymru* yn cynnwys y data diweddaraf ar y 31 dangosydd sy'n sail i'r targedau pan fydd y data ar gael - gan roi cyfle parhaus i asesu cynnydd Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r cylch gorchwyl cytûn ar gyfer y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant yn cynnwys cyfrifoldeb i roi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ar y gofynion polisi ehangach sydd eu hangen i gyflawni'r targedau tlodi plant a nodir yn *Dileu Tlodi Plant - Mesur Llwyddiant*. Yn ogystal, bydd gan y Grŵp Cyflawni Tlodi Plant, sy’n cael ei gadeirio gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, rôl i fonitro cynnydd tuag at y targedau a bydd yn derbyn diweddariadau rheolaidd amdanynt.

Mae Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd monitro cynnydd yn erbyn y targedau cytûn a gallant gyflwyno adroddiad ar gynnydd drwy Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am bob polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod trefniadau cadarn ar waith i sicrhau ei hatebolrwydd o ran y targedau tlodi plant. Yn ystod y broses craffu ar Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) ac yng nghyd-destun y strategaeth tlodi plant newydd o 2010 ymlaen, cytunodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol

a Llywodraeth Leol i roi’r wybodaeth ddiweddaraf yn flynyddol am y cynnydd yng nghyd-destun y targedau i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae’r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) newydd yn gwneud darpariaeth statudol, drwy fframwaith deddfwriaethol, i ddatblygu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â thlodi plant. Bydd hyn yn cynyddu pwysigrwydd a phroffil materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant ym mhob asiantaeth gyhoeddus.

**Goblygiad Ariannol:** Gall y costau sy'n gysylltiedig â pholisïau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes o ran cyflawni'r targedau a monitro gael eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Mae goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth newydd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 5**
**Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu a rhesymoli'r gwaith o ariannu asiantaethau lleol gyda'r bwriad o sicrhau cydlyniant yn ei holl drefniadau ariannu.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2008 cyhoeddodd Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol Adroddiad ar ariannu’r Trydydd Sector yng Nghymru. Un o'r argymhellion oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r ffrydiau ariannu amrywiol a ddarperir, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei hasiantau, i nodi'r posibilrwydd o gyfuno; ac i asesu a yw'r cydbwysedd rhwng refeniw ac arian cyfalaf yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau.

Mae’r swyddogion yn gweithredu'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd. Mae Tîm IDEAS Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio astudiaeth o grantiau yn ddiweddar, a fydd yn cynnwys canllawiau arferion gorau ar gyfer rheoli grantiau. Anfonir yr wybodaeth ddiweddaraf at swyddogion Uned y Trydydd Sector a bydd cyfle iddynt gyfrannu tuag at yr astudiaeth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y dylai fod yn cymeradwyo grantiau sy'n galluogi'r sector gwirfoddol i wneud gwaith a fydd yn helpu i fodloni’r amcanion strategol ehangach a amlinellwyd yn *Cymru'n Un*. Mae hyn yn cynnwys y rhai na all Llywodraeth y Cynulliad eu datblygu ei hun yn uniongyrchol.

Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor cyn bo hir gan roi manylion am y cynnydd wrth weithredu argymhellion y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant hyd at fis Tachwedd 2009. Bydd y Gweinidog yn rhoi diweddariad llafar arall mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn y gwanwyn.

Yn ychwanegol at hyn, mae Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector*, a gyhoeddir fel dogfen ar wahân. Mae'r Cod yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i broses ariannu'r sector gan Lywodraeth y Cynulliad, er mwyn sicrhau bod arferion gorau'n cael eu cymhwyso wrth weinyddu ei chynlluniau grant a chynlluniau'r asiantaethau hynny sy'n rheoli arian ar ei rhan. Cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig o'r Cod yn Ionawr 2009 ac mae bellach yn cynnwys penodau ar gaffael ac adennill costau yn llawn, ymhlith newidiadau a diweddariadau eraill y mae'r Cynllun Gweithredu Strategol yn nodi bod eu hangen. Ers ei gyhoeddi, mae rhan ar yr Iaith Gymraeg hefyd wedi'i hychwanegu at y fersiynau ar-lein ac electronig.

Mae'n ofynnol i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus sy'n cael eu noddi a chyrff iechyd fabwysiadu'r Cod a chydymffurfio ag ef, ac anogir awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.

Mae angen cydlynu cyfundrefnau ariannu er mwyn rheoli rhaglenni'n effeithiol, a phe bai gorgyffwrdd posibl yn cael ei nodi, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno y dylai gael ei ddileu. Nid yw'r argymhelliad yn cyfyngu ei hun i dlodi plant, a dylid nodi lle yr ymdrinnir â nifer o amcanion y llywodraeth, y gall hyn greu cymhlethdod angenrheidiol. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cyllid lleol ar y cyfan ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â phob un o'i phartneriaid cyflawni.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Gallai dileu unrhyw orgyffwrdd mewn cyllid lle y mae'n bodoli ryddhau refeniw.

**Argymhelliad 6**
**Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau, wrth wneud cais am unrhyw 'gyllid nad yw'n rheolaidd' yn hytrach na chyllid craidd, y dylai fod yn angenrheidiol i awdurdodau lleol ddangos sut bydd yr arian a roddir iddynt yn effeithio ar allu'r awdurdod i fynd i'r afael â thlodi plant.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Daw tua 80 y cant o gyllid refeniw awdurdodau lleol o grant cynnal refeniw heb ei neilltuo a delir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r fformiwla ar gyfer dosbarthu grant cynnal refeniw rhwng awdurdodau yn cynnwys dangosyddion sy'n ystyried angen cymharol awdurdod lleol i wario er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant (er enghraifft, nifer y disgyblion ysgol sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim; plant dibynnol mewn cartrefi lle mae'r rhieni neu'r oedolion sy'n byw yno yn ddi-waith a phlant dibynnol mewn cartrefi ag un oedolyn yn unig).

Mae pob grant sydd wedi ei neilltuo neu grant penodol eisoes yn amodol ar delerau ac amodau grant sy'n rhagnodi trefniadau monitro ac yn nodi'r canlyniadau sy'n ofynnol o'r arian grant. Elfen allweddol o'r gwaith o ddatblygu cytundebau canlyniadau, sy'n cael eu treialu yn y sector addysg, yw datblygu hyblygrwydd ariannu sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion strategol

Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys y rhai hynny sy’n gysylltiedig â thlodi plant. Ni fydd pob cynllun grant (er enghraifft, rhai mathau o grantiau cyfarpar cyfalaf) yn uniongyrchol berthnasol i faterion tlodi plant. Fodd bynnag, lle y bo'n briodol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ffyrdd y gall trefniadau monitro a phennu canlyniadau adlewyrchu'n well effaith arian grant, a thrwy hynny helpu i ddileu tlodi plant.

Ar 10 Tachwedd, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae’r Mesur yn gwneud darpariaeth statudol i ddatblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â thlodi plant, a datblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed. Bydd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cymreig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, baratoi a chyhoeddi strategaeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru, a thrwy hynny gynyddu pwysigrwydd a phroffil materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant ymhlith awdurdodau lleol a’u partneriaid.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 7**
**Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r canllawiau statudol yng Nghylchlythyr 23/02, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002, fel ei bod yn angenrheidiol i gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion neu resymoli lleoedd ysgol, gynnwys datganiad asesu effaith yn rhoi manylion o'r holl ffyrdd y bydd y cynnig yn effeithio ar allu'r awdurdod i gynorthwyo'r gwaith o ddileu tlodi plant.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Adolygwyd y canllawiau presennol ar gynigion Ad-drefnu Ysgolion, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth gyflwyno cynigion statudol ar gyfer newidiadau i ysgolion. Mae'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi cyfrannu at yr adolygiad hwnnw, gan bwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â thlodi plant.

Mae'r canllawiau diwygiedig, a gyhoeddwyd ym Medi 2009, ac a fydd yn disodli’r cylchlythyr presennol o 1 Ionawr 2010 ymlaen, yn rhoi mwy o bwyslais ar faterion tlodi plant na'r cylchlythyr presennol. Ystyriodd Llywodraeth y Cynulliad farn y Pwyllgor fel rhan o'r broses ymgynghori.

Mae’r cylchlythyr diwygiedig yn amlinellu, fel polisi cefndir allweddol, sy’n effeithio ar drefniadaeth ysgolion, y Nodau Craidd ar gyfer Plant, sy’n cynnwys y nod na ddylai plant fod dan anfantais oherwydd tlodi.

Wrth baratoi cynigion i newid darpariaeth ysgolion, bydd angen i awdurdodau lleol ac eraill ystyried a yw cynnig yn cyfrannu tuag at y strategaeth *Dyfodol Teg i’n Plant* ac unrhyw strategaeth a fydd yn ei dilyn. Byddai hyn yn cynnwys ystyried a fyddai cynnig yn helpu i wella cyrhaeddiad addysgol plant o gefndiroedd economaidd-ddifreintiedig.

Mae'r cylchlythyr hefyd yn nodi ‘y dylai buddiannau dysgwyr fod yn drech na buddiannau eraill a rhaid cau'r bwlch o ran anghydraddoldebau rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a rhai difreintiedig er lles pawb’.

Mae’r cylchlythyr drafft yn nodi y dylai awdurdodau, wrth ystyried newidiadau i ysgolion, ystyried yr effaith ar y cymunedau sy’n cael eu heffeithio, ac y dylid ystyried ffyrdd o leihau effeithiau cyn symud ymlaen â chynigion. Mae’n pwysleisio’r angen i ystyried barn y cyngor cymuned, unrhyw bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ac unrhyw grwpiau gwirfoddol sydd â diddordeb yn y gymuned.

Yn ychwanegol at hyn, bydd angen i awdurdodau lleol werthuso’r effaith ar y gymuned wrth gyflwyno cynigion. Er nad yw’r canllawiau ar werthusiadau’n rhagnodol, maent yn awgrymu, yng nghyswllt cau ysgolion, y dylid ystyried sut y gellid cefnogi ymgysylltiad disgyblion ag ysgol arall. Enghraifft o hyn fyddai ystyriaeth o’r ffordd y bydd disgyblion, yn enwedig disgyblion llai breintiedig, yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.

Ar 10 Tachwedd, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae’r Mesur yn gwneud darpariaeth statudol i ddatblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â thlodi plant, a datblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed. Bydd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cymreig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, baratoi a chyhoeddi strategaeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru, a thrwy hynny gynyddu pwysigrwydd a phroffil materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant ymhlith awdurdodau lleol a’u partneriaid.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 8**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno proses fwy effeithiol o fonitro a gwerthuso effaith polisïau, gan gynnwys astudiaethau hydredol. Dylai monitro fod yn un o'r gofynion allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt wneud cais am gyllid grant, gydag arian Rhagori yn gysylltiedig â monitro perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft. Ni ddylai'r broses fonitro ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyrhaeddiad addysgol, ond yn hytrach dylai hefyd gynnwys targedau sy'n ymwneud â gofal bugeiliol, megis y nifer sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu dull o werthuso’n strategaeth tlodi plant newydd a rhaglenni sy’n rhan ohoni. Mae gwaith rhagarweiniol wedi dechrau er mwyn asesu’r dystiolaeth sydd ar gael a’r dulliau presennol o werthuso, a sefydlu fframwaith ar gyfer gwerthuso mentrau tlodi plant yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith a wnaethpwyd gan yr Athro Ted Melhuish o Goleg Birkbeck. Bydd adroddiadau am y gwaith hwn yn cael eu

cyhoeddi fel rhan o gyfres o bapurau ymchwil a dadansoddi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso strategaeth tlodi plant newydd.

Elfen allweddol o waith gwerthuso yn y dyfodol fydd deall effaith raglenni dros gyfnod, gan ddefnyddio data hydredol lle bo'n briodol yn ogystal â dulliau gwerthuso eraill sy'n addas ar gyfer asesu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc eu hunain. Fel enghraifft o'n hymrwymiad i ddadansoddiad hydredol, mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn darparu cyllid i gefnogi Astudiaeth Carfan y Mileniwm er mwyn sicrhau sampl cryf ar gyfer Cymru. Mae canfyddiadau Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd, gan gynnwys canlyniadau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Cafodd y canlyniadau pan oedd y plant yn 3 a 5 oed eu cynnwys ym *Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2008* a bydd canfyddiadau'r adeg pan oeddent yn 7 oed yn cael eu cynnwys yn y rhifyn nesaf o'r Monitor a fydd yn cael ei gyhoeddi yn Nhachwedd 2010. Mae'r set ddata gyfoethog hon hefyd wedi cael ei dadansoddi gan academyddion Cymreig a bydd eu canfyddiadau hwy'n cael eu defnyddio i fwydo i mewn i'r strategaeth tlodi plant newydd.

Cafodd mentrau Rhagori eu monitro'n helaeth dros dair blynedd y rhaglen. Mae hyn wedi cynnwys gofyniad i ysgolion gyflwyno adroddiad blynyddol ar hunanwerthusiad eu mentrau ac y dylai awdurdodau lleol fonitro gweithgarwch Rhagori yn eu hysgolion. Ym Medi 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad *Rhagori: Llawlyfr Gwerthuso ar gyfer Ysgolion* i gefnogi'r rhai sy'n ymwneud â gweithgarwch a ariennir gan y rhaglen. Er bod nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi cael ei ddefnyddio fel dangosydd procsi tlodi, wrth ddyrannu arian Rhagori, nid ydym wedi cyfyngu gweithgarwch Rhagori i ddisgyblion o'r fath. Anogwyd ysgolion i ddefnyddio'r ystod ehangaf o dystiolaeth i ganfod y disgyblion hynny a ddylai elwa ar arian Rhagori oherwydd eu hanfantais economaidd-gymdeithasol. Yn ogystal â'r gwaith monitro mewn ysgolion ac ar lefel awdurdod lleol, cafwyd adroddiadau gwerthuso allanol cadarn gan Estyn, yr Uned Pobl a Gwaith a'r cydgysylltwyr Rhagori rhanbarthol. Ym mhob agwedd ar waith monitro a gwerthuso mentrau Rhagori, rhoddwyd amlygrwydd i lwyddiant ysgolion wrth ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol a fydd yn gwneud disgyblion difreintiedig yn ddysgwyr mwy effeithiol, yn ogystal â chanlyniadau academaidd uniongyrchol yr ymyriadau.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

| |
|---|
| **Argymhelliad 9**<br>**Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod arferion da o ran mynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn cael eu lledaenu'n well ymysg ysgolion a lleoliadau addysg ffurfiol ac anffurfiol.** |

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi plant yn flaenoriaeth yng ngwaith ysgolion ac mewn lleoliadau addysg eraill. Er mwyn cyflawni'r nod hwn mae'n bwysig bod Llywodraeth y Cynulliad

yn gweithio mewn cysylltiad agos â'i phartneriaid cyflawni mewn awdurdodau lleol a phartneriaid sector cyhoeddus eraill. Yn unol â hynny, yn 2007, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad i ariannu prosiect peilot dwy flynedd yn ymwneud â thlodi plant mewn awdurdodau lleol.

Nod y prosiect yw cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i flaenoriaethu tlodi plant a phrif ffrydio polisïau sy'n cefnogi'r gwaith o leihau tlodi plant ledled Cymru. Dechreuodd y prosiect ym mis Hydref 2007, a bydd yn para am 2 flynedd. Caiff ei gefnogi gan adnodd staff penodedig yn Achub y Plant a CLILC. Cefnogir gwaith y prosiect gan Grŵp Llywio Cenedlaethol, gyda chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad.

Mae strwythur y prosiect yn ddeublyg ac yn cynnwys elfennau cenedlaethol a lleol. Ar lefel genedlaethol mae tîm y prosiect wedi datblygu 'Offeryn Gwella', sef *Datrys Tlodi Plant - Cymru*. Mae hyn yn rhoi adnodd cynaliadwy i'r holl awdurdodau a phartneriaid, y gellir ei ddefnyddio i bennu cyfeiriad polisi corfforaethol ar faterion tlodi plant. Mae hyn yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar sut y gall ysgolion a lleoliadau addysg eraill flaenoriaethu gwaith ar dlodi plant. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys adran 'Arfer Gorau' lle gellir rhannu gwaith arloesol ar faterion tlodi plant yn lleol.

Bydd y prosiect yn dod i ben yn Rhagfyr 2009 ac mae gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae canfyddiadau cynnar y gwerthusiad yn gadarnhaol ac yn dangos bod y pecyn cymorth wedi cael derbyniad da iawn, gyda nifer yr 'ymweliadau' misol yn cynyddu'n raddol. Cyrhaeddodd yr ymweliadau â'r safle uchafbwynt o 1,746 ym Medi 2009 ac mae'r safle'n denu dros 400 o ymwelwyr unigryw'n gyson bob mis. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn ystyried dyfodol y prosiect a'r ffordd orau o rannu'r hyn a ddysgwyd ohono.

Mae'r rhaglen Rhagori wedi bod yn fodd effeithiol o hoelio sylw gweinyddwyr ac ymarferwyr yn fwy craff ar oblygiadau amddifadedd o ran gallu pobl ifanc i wneud cynnydd priodol yn yr ysgol. Mae tîm Rhagori Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â chydgysylltwyr rhanbarthol Rhagori, wedi ymdrechu'n gyson i annog ysgolion i roi mwy o sylw i'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer cynhyrchu canlyniadau cynaliadwy drwy'r cyllid. O ganlyniad, mae ysgolion yn raddol wedi rhoi mwy o bwyslais ar feithrin gallu a gweithgareddau datblygiad proffesiynol, gyda'r bwriad o wneud newidiadau mewn ysgolion a fydd yn eu galluogi i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn well yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhyddhau £6.29 miliwn ar gyfer y rhaglen Rhagori yn 2009-2010 er mwyn galluogi ysgolion i ymwneud â mentrau ymchwil weithredol cydweithredol. Nod pedwaredd flwyddyn y grant yw cynhyrchu astudiaethau achos ac adnoddau o safon uchel a fydd yn gwella effeithiolrwydd ysgolion ac yn darparu canolbwynt cenedlaethol ar gyfer yr agenda 'tlodi a thangyrhaeddiad'. Bydd y deunyddiau hyn yn rhoi sylw i'r themâu allweddol a nodwyd yn dilyn gwerthusiadau cynharach o'r rhaglen a byddant yn adlewyrchu effeithiolrwydd y strategaethau a fabwysiadwyd gan ysgolion. Yn arwyddocaol iawn, mae llawer o'r gwaith prosiect ar gyfer 2009-

2010 yn cynnwys cydweithredu rhwng gwahanol awdurdodau (ac, mewn rhai achosion, rhwng gwahanol gonsortia).

Yng Ngorffennaf, ail-lansiodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wefan lawer gwell ar gyfer Rhagori (www.rhagori-cymru.org.uk a www.raise-wales.org.uk). Mae hyn yn ffordd ymarferol iawn o ddosbarthu'r arferion da a welwyd yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen. Yn ystod y bedwaredd flwyddyn hon, bydd y consortia rhanbarthol yn canolbwyntio ar gefnogi eu hysgolion Rhagori i ddatblygu rhagor o ddeunydd ar gyfer y wefan. Pan fydd y rhaglen Rhagori'n dod i ben mewn ysgolion, bydd yr holl adnoddau a gynhyrchwyd o ganlyniad i gyllid y rhaglen yn cael eu trosglwyddo i wefan Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth y Cynulliad fel cyfraniad parhaus i'r gwaith o alluogi ysgolion i sicrhau rhagoriaeth â'r dysgwyr mwyaf difreintiedig.

**Goblygiad Ariannol:** Dim. Gall cymorth ariannol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer prosiect peilot Awdurdodau Lleol ar Dlodi Plant gael ei dalu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes. Mae'r gwaith mewn perthynas â Rhagori yn cael ei ariannu o fewn cyllideb rhaglen Rhagori.

**Argymhelliad 10**
**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu'n gyflym i sefydlu'r wefan Rhagori arfaethedig i hwyluso'r gwaith o rannu syniadau am arfer da.**

**Ymateb: Derbyn**

Datganolodd Llywodraeth y Cynulliad weithgaredd Rhagori ledled Cymru i bedwar consortiwm o awdurdodau lleol yn 2007/08 a 2008/09, gan ryddhau £20,000 a £30,000 yn ystod y blynyddoedd hynny tuag at y gwaith o ddatblygu gwefan. Bu'r consortia'n gweithio gyda Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru er mwyn sefydlu'r wefan, sydd i'w gweld yn www.rhagori-cymru.org.uk a www.raise-wales.org.uk. Roedd y fenter hon yn dipyn o her ac er mwyn rhoi mwy fyth o ysgogiad a chyfeiriad i'r gwaith hwn, comisiynasom ymgynghorydd pwrpasol i gydgysylltu a goruchwylio datblygiad y wefan. Ail-lansiwyd y wefan yn llwyddiannus gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yng Ngorffennaf 2009, ac yn 2009-10 mae'n cael ei hariannu ag arian Rhagori sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cydgysylltu rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae gweithgaredd Rhagori wedi cynhyrchu toreth o ddeunydd yn ymwneud ag arferion gorau sydd wedi cael derbyniad cadarnhaol mewn cynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol ac sy'n amlwg o ddiddordeb i ysgolion a'u partneriaid ar hyd a lled y wlad. Bydd y wefan yn ffordd werthfawr o ledaenu'r arferion da hynny, a fydd yn cael eu hintegreiddio i wefannau'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac APADGOS ar ôl i'r grant ddod i ben.

**Goblygiad Ariannol:** Dim. Ariennir y gwaith uchod o fewn cyllideb rhaglen Rhagori**.**

**Argymhelliad 11**
**Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod mwy o addysg tlodi yn cael ei chynnwys mewn hyfforddiant athrawon prif ffrwd ac wrth hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau addysg. Dylai'r addysg hon gwmpasu effaith tlodi ar blant a'u haddysg. Hefyd, dylai gynnwys cyfrifoldebau athrawon i ddarparu gofal bugeiliol. Dylai'r addysg hon gynnwys effaith tlodi ar blant a'u haddysg. Dylai hyn hefyd ymgorffori cyfrifoldebau athrawon i ddarparu gofal bugeiliol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Ar ddiwedd mis Hydref 2008, cyflwynodd y Rhwydwaith Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc (a hwylusir gan Gyngor Gofal Cymru yn ei rôl sector sgiliau) Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc ddrafft a'r Craidd Cyffredin o Wybodaeth a Dealltwriaeth am Sgiliau.

Mae’r Craidd Cyffredin yn ymdrin â meysydd ymarfer gan gynnwys Cyfathrebu ac Ymgysylltiad, Datblygiad Plant a Diogelu a Hyrwyddo Lles y Plentyn, ac mae pob un ohonynt yn rhoi cyfle i fynd i’r afael ag anghenion hyfforddiant y rheini yn y gweithlu sy’n gweithio â phlant a phobl ifanc dan anfantais.

Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn fanwl gan swyddogion mewn sawl un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, a bwriedir cyflwyno’r Strategaeth Gweithlu a chynllun gweithredu fesul cam yng ngwanwyn 2010. Caiff agweddau manwl ar hyfforddiant ar gyfer proffesiynau, gan gynnwys athrawon, eu hystyried gan y swyddogion priodol yng nghyd-destun elfennau a nodir yn y Craidd Cyffredin, ar ôl penderfynu ar y materion gweithredu cyffredinol. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried yn y broses.

**Goblygiad Ariannol:** Mae manylion unrhyw oblygiadau o ran adnoddau a chostau ychwanegol yn cael eu hystyried gan swyddogion wrth baratoi’r cynllun gweithredu.

**Argymhelliad 12**
**Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal adolygiad o ddehongliad *Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: Cytundeb Cenedlaethol* mewn perthynas â chyfrifoldebau athrawon i hwyluso'r gwaith o ddarparu gofal bugeiliol. Dylai'r adolygiad hwn benderfynu a yw'r ffordd y mae'r cytundeb wedi'i ddehongli yn llesteirio athrawon, heb gyfrifoldebau penodol dros ddarparu gofal bugeiliol, rhag bod yn sensitif o ran anghenion disgyblion mewn tlodi, neu sy'n wynebu rhwystrau eraill i ddysgu. Os yw'r cytundeb yn cael ei ddehongli fel hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cyfeiriad clir i awdurdodau addysg ac ysgolion, gan egluro cyfrifoldeb parhaol pob athro i fod yn sensitif i faterion tlodi cymdeithasol, a materion cymdeithasol eraill, wrth**

**ryngweithio gyda disgyblion a chyfeirio disgyblion i gael cymorth ychwanegol os yw'n briodol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn un o lofnodwyr y Cytundeb Cenedlaethol, *Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith*, ac mae'n gefnogol i'r syniad o fabwysiadu ystod eang o fodelau ar gyfer darparu gofal bugeiliol mewn ysgolion. Athrawon sy'n gyfrifol o hyd am yr hyn y mae eu disgyblion yn ei ddysgu, ac mae hyn yn cynnwys gallu nodi a mabwysiadu strategaethau addas i oresgyn amrywiaeth o rwystrau i ddysgu disgyblion unigol, gan gynnwys rhwystrau sy’n cael eu hachosi gan dlodi a materion cymdeithasol eraill. Mae ein ffocws ar Addysgeg yn ei gwneud yn glir bod creu'r amgylchedd a'r cydberthnasau cywir ar gyfer dysgu yn ffactorau hollbwysig i addysgu a dysgu'n llwyddiannus. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith ar addysgeg yn defnyddio enghreifftiau o arfer rhagorol lle mae sgiliau proffesiynol athrawon wedi cefnogi dysgu disgyblion o dan amodau lle maent yn wynebu anfantais gymdeithasol benodol neu dlodi. Byddwn yn parhau i weithio gydag eraill sydd wedi llofnodi'r Cytundeb i fonitro gweithrediad a byddwn yn parhau i ddefnyddio enghreifftiau lle mae trefniadau gofal bugeiliol rhagorol wedi cyfrannu at oresgyn y rhwystrau i ddysgu a brofir gan blant sy'n wynebu tlodi.

**Goblygiad Ariannol:** Dim**.** Gellir ei gynnwys o fewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 13**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o fonitro nifer y plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach a oedd yn manteisio ar frecwast am ddim mewn ysgolion ac yn comisiynu ymchwil i fanteision posibl diwygio amseroedd y clybiau brecwast. Gallai hyn gynnwys monitro a oedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn sicrhau bod brecwast am ddim ar gael. Ni fyddai monitro fel hyn yn cynnwys nodi plant a phobl ifanc.**

**Ymateb: Derbyn**

Er Ionawr 2009, mae’r gwaith o gasglu data am ysgolion a disgyblion sy’n cymryd rhan yn y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd wedi’i drosglwyddo i’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Roedd y ddogfen *Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2009* yn cynnwys yr wybodaeth isod:

- 905 o ysgolion wedi nodi data brecwast am ddim yng nghyfrifiad yr ysgol;
- 32 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion sy’n cynnig brecwastau am ddim wedi cymryd brecwast yn ystod wythnos yr arolwg;

- 36 y cant o ddisgyblion a oedd â hawl i brydau ysgol am ddim mewn ysgolion sy’n cynnig brecwast am ddim wedi cymryd brecwast yn ystod wythnos yr arolwg.

Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i ffurfio a darparu gwybodaeth ar gyfer strategaethau wedi’u targedu tuag at wella bwyd a maethiad mewn ysgolion. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddadansoddi’r nifer sy’n cymryd rhan yn y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd sydd hefyd yn cael prydau ysgol am ddim; casglwyd yr wybodaeth hon cyn y cyfrifiad ysgol hwn.

Mae gan ysgolion rywfaint o hyblygrwydd o ran amseru eu sesiynau brecwast. Fel arfer dylai brecwast gael ei ddarparu mewn cyfnod byr (er enghraifft 30 munud) a'r prif nod ddylai fod rhoi digon o amser i'r plant hynny sy'n mynd i'r sesiwn gael brecwast iach cyn dechrau gweithgareddau arferol yr ysgol.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 14**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o fonitro'r nifer a oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim, gan gynnwys monitro gwerth maethol prydau o'r fath.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae data ar y nifer o blant sy'n cael prydau ysgol (prydau y telir amdanynt a phrydau am ddim) eisoes yn cael eu casglu drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

Ar hyn o bryd mae Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001 yn diffinio'r grwpiau bwyd gwahanol ac yn nodi'r safonau maethol gofynnol ar gyfer cinio ysgol i ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd. Safonau gorfodol gofynnol yw'r rhain. Gall awdurdodau lleol ac ysgolion bennu safonau uwch.

Mae'r Cynllun Gweithredu *Blas am Oes* yn nodi'r cyfeiriad a'r camau strategol angenrheidiol i wella safonau maethol bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion yng Nghymru. Caffaelwyd meddalwedd dadansoddi maethol fel y gall arlwywyr gynllunio bwydlenni gan ddefnyddio eu ryseitiau eu hunain a rhannu ryseitiau â  chydweithwyr arlwyo ledled Cymru.  Mae'r feddalwedd hon ar gael i bob darparwr arlwyo mewn ysgolion. Bydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau mwy llym a argymhellir yn *Blas am Oes* yn lleol a chenedlaethol, ac yn nodi meysydd y gall fod angen eu mireinio.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 15**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i ba mor ymarferol oedd cyflenwi prydau ysgol am ddim i bawb ar gyfer plant o wahanol oedran.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar wella safonau maethol bwyd a diod a ddarperir yng Nghymru ac mae hyn yn cael ei gefnogi drwy ein Cynllun Gweithredu *Blas am Oes*. Bydd pedwar awdurdod lleol, un o bob rhanbarth yng Nghymru, yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a phrofi canllawiau newydd ar gyfer gweithredu gwell safonau bwyd a maeth. Bydd y gwersi a ddysgwn o'r prosiect hwn yn hollbwysig wrth wella iechyd a lles pobl ifanc ledled Cymru ac wrth lywio penderfyniadau ar gomisiynu gwaith ar ymarferoldeb prydau ysgol cyffredinol am ddim.

Mae prydau ysgol, yn enwedig prydau ysgol a ddarperir am ddim, yn agwedd bwysig ar strategaeth wrth-dlodi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mewn ardaloedd difreintiedig, lle gweinir llawer o'r prydau am ddim, mae'r rhain yn pennu'r safon ar gyfer y gwasanaeth cyfan. Mae ein menter lwyddiannus Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd eisoes yn helpu plant i gael cychwyn da i'r diwrnod, ac mae tua 959 o ysgolion cynradd yn rhan o'r cynllun.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod arian ar gael i bob awdurdod lleol, nad yw ei ysgolion yn rhan o Brosiect Ymchwil Weithredu, sy'n dymuno cyflawni safonau *Blas am Oes*. Ffocws y cynllun grant hwn yw mynd i'r afael â gofynion y disgyblion eu hunain drwy fabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan tuag at gyflawni *Blas am Oes* - er enghraifft, i wella ceginau ac ystafelloedd bwyta, a sicrhau bod y profiad bwyta cyfan yn fwy atyniadol ac wedi ei drefnu'n dda.

Byddwn yn parhau i fonitro a dysgu o ddatblygiadau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn ein helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu ein hymagwedd ysgol gyfan tuag at wella bwyd a maeth mewn ysgolion yng Nghymru.

**Goblygiad Ariannol:** Nid oes goblygiadau ariannol ar hyn o bryd. Bydd angen adolygiad o'r goblygiadau ariannol pan roddir ystyriaeth i gomisiynu gwaith ychwanegol.

**Argymhelliad 16**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried gweithredu cynllun peilot ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i bawb.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Gwneir penderfyniad i dreialu prydau ysgol am ddim i bawb yn dilyn adolygiad o'r gwaith presennol sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â phrydau ysgol. Os

bydd y dystiolaeth a gesglir o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn cyfiawnhau cyflwyno'r gwaith hwn, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w dreialu.

**Goblygiad Ariannol:** Gweler yr ymateb i Argymhelliad 15 uchod.

**Argymhelliad 17**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i effeithiolrwydd cynlluniau i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim.**

**Ymateb: Derbyn**

Dangosodd adolygiad desg cychwynnol o ymchwil a wnaethpwyd yng Nghymru i'r niferoedd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim nad oedd llawer o wybodaeth ar gael. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgol adroddiad dan y teitl *Please Sir? Can we have some more - lessons from Free School Meal initiatives*. Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi manylion a chanfyddiadau mentrau prydau ysgol am ddim yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn fel rhan o'r gwaith ehangach sydd gennym ar y gweill er mwyn datblygu *Blas am Oes*. Yr hyn sy'n glir yw bod nifer o wahanol resymau pam nad yw plant yn manteisio ar eu hawl i brydau ysgol am ddim. Gall y rhain gynnwys y bwyd sy'n cael ei gynnig, y gallu i adael y safle yn ystod amser cinio, ymrwymiad i weithgareddau eraill a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r holl brofiad o fwyd, megis ciwio ac amgylchedd yr ystafell fwyta.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 18**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod mwy o gymorth a hyfforddiant ar gael i lywodraethwyr ysgol ar dlodi plant.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod rôl bwysig llywodraethwyr ysgol wrth gydnabod ac ymateb i dlodi plant. Mae'n bwysig bod llywodraethwyr ysgol yn ymwybodol o dlodi plant a'i effaith ar addysg wrth bennu polisïau ysgol a gwerthuso cyflawniadau ysgol. Awgrymodd gwerthusiad allanol o'r rhaglen Rhagori gan Estyn a'r Uned Pobl a Gwaith, yn gyffredinol, fod ysgolion yn llawer mwy cyfforddus yn delio â thangyflawniad addysgol nag y maent â rhwystrau economaidd-gymdeithasol i ddysgu. Mae'r un peth yn debygol o fod yn wir am lywodraethwyr ysgol. Oni fydd llywodraethwyr yn ymwybodol o effaith andwyol tlodi plant, ni fyddant yn cymryd camau sy'n rhoi ystyriaeth briodol iddo.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi nifer o ganllawiau, ac mae llawer ohonynt wedi eu llunio ar gyfer cyrff llywodraethu. Mae'n ymrwymo i ystyried beth ddylai gael ei ddweud am dlodi plant, pan fo'n berthnasol i'r pwnc

canllaw, mewn canllawiau yn y dyfodol. Dangoswyd hyn yn ddiweddar pan gyhoeddwyd canllawiau am wisg ysgol yn 2008.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol yn ôl adran 22 o Ddeddf Addysg 2002 i roi hyfforddiant am ddim i lywodraethwyr er mwyn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae mynd i'r afael â thlodi yn galw am ddull gweithredu cyfannol ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried lle y byddai'n fuddiol cyfeirio at dlodi plant wrth hyfforddi llywodraethwyr.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael eu cefnogi'n llawn yn eu rôl eu hunain o fynd i'r afael â thlodi plant yn lleol ac mae'n cydnabod bod angen help ac arweiniad ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gydnabod a mynd i'r afael â thlodi plant. Yn unol â hynny, yn 2007, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad i ariannu prosiect peilot dwy flynedd yn ymwneud â thlodi plant mewn awdurdodau lleol.

Nod y prosiect yw cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i flaenoriaethu tlodi plant a phrif ffrydio polisïau sy'n cefnogi'r gwaith o leihau tlodi plant ledled Cymru. Dechreuodd y prosiect ym mis Hydref 2007 ac mae'n para am 2 flynedd. Caiff ei gefnogi gan adnodd staff penodedig yn Achub y Plant a CLILC. Mae strwythur y prosiect yn ddeublyg ac mae'n cynnwys elfennau cenedlaethol a lleol. Ar lefel genedlaethol, mae tîm y prosiect wedi datblygu 'Offeryn Gwella', sef *Datrys Tlodi Plant - Cymru*. Mae hyn yn rhoi adnodd cynaliadwy i'r holl awdurdodau a phartneriaid, y gellir ei ddefnyddio i bennu cyfeiriad polisi corfforaethol ar faterion tlodi plant. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ac arweiniad ar hyfforddiant i aelodau etholedig a gweithwyr proffesiynol eraill ar faterion tlodi plant.

Ar 10 Tachwedd, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth statudol i ddatblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â thlodi plant, a datblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed. Bydd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cymreig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, baratoi a chyhoeddi strategaeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru, a thrwy hynny gynyddu pwysigrwydd a phroffil materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant ymhlith awdurdodau lleol a'u partneriaid.

**Goblygiad Ariannol:** Dim. Gall cymorth ariannol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer prosiect peilot Awdurdodau Lleol ar Dlodi Plant gael ei dalu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 19**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu canllawiau statudol i lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion ar y math o arweinyddiaeth y dylen nhw fod yn ei roi i fynd i'r afael â thlodi plant. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys camau ymarferol megis cydbwyso gwerth addysgol teithiau preswyl yn erbyn eu cost ariannol. Dylai'r canllawiau hyn fod ar gael i rieni, gofalwyr a disgyblion hefyd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae angen i lywodraethwyr ac arweinwyr ysgol fod yn ymwybodol o dlodi plant a sut i'w ystyried wrth wneud penderfyniadau polisi a gweithredol. Yn unol â hynny, mae'r ymateb i argymhelliad 18 yn cynnwys ymrwymiad i ystyried tlodi plant mewn canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Wrth gydnabod gwerth addysgol ymweliadau ysgol a theithiau preswyl, ynghyd â'r pwysau o ran costau a ddaw yn eu sgil, bydd APADGOS yn cyhoeddi canllawiau yn 2010 a fydd yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae cyfraith addysg yn caniatáu codi tâl.

Rydym wrthi'n adolygu'r rhaglenni arwain presennol i arweinwyr ysgol a byddwn yn ystyried ffyrdd o ymgorffori gwell ymwybyddiaeth o effaith tlodi plant yn y rhaglenni hyn.

Ar 10 Tachwedd, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth statudol i ddatblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â thlodi plant, a datblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed. Bydd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cymreig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, baratoi a chyhoeddi strategaeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru, a thrwy hynny gynyddu pwysigrwydd a phroffil materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant ymhlith awdurdodau lleol a'u partneriaid.

**Goblygiad Ariannol:** Telir cost cyhoeddi canllawiau ar godi tâl mewn ysgolion o gyllideb cyhoeddiadau APADGOS a chyllideb costau rhedeg yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Argymhelliad 20**
**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu ymchwil i'r rhesymau pam fod cynnydd addysgol yn dirywio, yn ôl pob tebyg, ym mlynyddoedd cyntaf ysgol uwchradd, gan gyfeirio'n benodol at blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae *Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2008* a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi tynnu sylw at 'resymau dros leihad mewn cyrhaeddiad rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3' fel bwlch gwybodaeth allweddol (tudalen 111 o'r Monitor llawn). Bydd yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol yn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet (Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol gynt) yn comisiynu adolygiad o dystiolaeth am lefelau cyrhaeddiad rhwng CA2 a CA3 gan gyfeirio'n benodol at blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach.

Gyda chyngor gan Estyn, rydym wedi nodi cryfderau presennol a meysydd i'w gwella yn y trefniadau pontio a roddir ar waith gan ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n bartneriaid. O ganlyniad i ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru

yn unig, mae bellach yn ofynnol i ysgolion cynradd ac uwchradd gydweithio i gynhyrchu a chynnal Cynllun Pontio sy'n canolbwyntio ar wella parhad a dilyniant o ran dysgu disgyblion, wrth iddynt symud i addysg uwchradd. Rydym wedi cefnogi'r gwaith o roi Cynlluniau Pontio ar waith gydag arian o'r Gronfa Ysgolion Gwell a darpariaeth sydd ar gael i bob awdurdod lleol yng Ngrant Pontio Cyfnod Allweddol 2-3.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu Estyn i olrhain y cynnydd a wneir a rhoi argymhellion ar gyfer materion pellach y mae angen ymdrin â hwy. Daeth adroddiad cyntaf Estyn (Mai 2008) i'r casgliad fod y set gyntaf o Gynlluniau Pontio, a roddwyd ar waith ym Medi 2007, yn cwmpasu'r pum agwedd graidd ar bontio yn briodol. Llunnir ail adroddiad yn 2009-2010. Yn ogystal, un o'r themâu allweddol ar gyfer cyllid Rhagori yn 2009-2010 fydd nodi sut y gellir defnyddio cynlluniau pontio orau i gefnogi cyflawniad addysgol disgyblion o gartrefi incwm isel. Bydd y consortia rhanbarthol o awdurdodau lleol yn rhoi cyllid i fentrau a fydd yn datblygu arfer effeithiol yn y cyswllt hwn.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio allbynnau o'r rhaglen waith hon ochr yn ochr ag ymchwil a gynlluniwyd gan bartneriaid i nodi meysydd i'w gwella a'r camau gweithredu angenrheidiol.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 21**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi dyletswydd benodol ar bob ysgol sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cydnabod y rôl allweddol a chwaraeir gan ddysgu er mwyn hyrwyddo cydlyniant. Bydd Gweinidogion yn ystyried argymhellion y Pwyllgor fel rhan o’r ymgynghoriad ar y strategaeth Cydlyniant Cymunedol bresennol ond byddant yn penderfynu sut i’w gweithredu yng ngoleuni ymatebion a blaenoriaethau’r llywodraeth. I’r perwyl hwnnw, sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen Cydlyniant Addysg ac mae wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer cwmpasu er mwyn edrych ar y gwaith sy’n cael ei wneud yn barod a’r trefniadau sy’n bodoli ar lefel leol yn y sectorau addysg a’r gymuned ehangach yng Nghymru. Comisiynwyd rhaglen ymchwil i ddarparu gwybodaeth sylfaenol i’n galluogi i ddatblygu darpariaeth ddysgu sy’n cefnogi cydlyniant cymunedol. Ar sail y dystiolaeth hon, bydd Bwrdd y Rhaglen yn ystyried yr argymhelliad hwn.

**Goblygiad Ariannol:** Dim. Gellir defnyddio adnoddau sydd ar gael yn barod i dalu cost ymgynghori a datblygu'r Strategaeth.

**Argymhelliad 22**
**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cychwyn astudiaeth ar gostau addysg i roi tystiolaeth gynhwysfawr i helpu i lunio polisi sy'n ymdrin â chostau o'r fath.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn Hydref 2009 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gwmni ymchwil allanol i gynnal astudiaeth er mwyn casglu barn rhieni a gofalwyr am wisg ysgol a chostau ehangach sy’n gysylltiedig ag anfon plant i’r ysgol. Bydd y cwmni’n cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2010.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 23**
**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro i ba raddau y mae ysgolion yn cadw at ei chanllawiau ar wisg ysgol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Nid yw canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wisg ysgol yn statudol ac felly nid ydynt yn orfodadwy yn yr ystyr honno. Canllawiau cyffredinol yw'r rhain am fod gan ysgolion yr hawl i bennu polisi o ran gwisg ysgol ac ni fyddai canllawiau rhagnodol iawn yn cydweddu â hynny. Am y rhesymau hyn, ni fyddai'n briodol monitro a yw ysgolion yn cadw at ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad fel yr awgrymir gan yr argymhelliad hwn.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad am i ysgolion ystyried cost gwisg ysgol a sut y gall hynny fod yn faich ar rieni sydd ar incwm isel. Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 22, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu ymchwil er mwyn casglu barn rhieni a gofalwyr ynglŷn â gwisg ysgol a chostau cysylltiedig. Cyflwynir adroddiad am y gwaith ymchwil hwn i Lywodraeth y Cynulliad ym Mawrth 2010 a bydd canfyddiadau’r ymchwil yn sail i ganllawiau yn y dyfodol.

**Goblygiad Ariannol:** Mae’r ymchwil yn costio £42,000 a thelir am y gwaith o gyllideb Gwasanaethau Addysg ac Ymchwil APADGOS.

**Argymhelliad 24**
**Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng ysgolion, ac ar draws awdurdodau, ynglŷn â lleihau costau ychwanegol addysg cymaint â phosibl. Dylai hyn gynnwys canllawiau statudol clir gan Lywodraeth y Cynulliad ar leihau costau o'r fath a chynnwys cyngor ymarferol ar gydbwyso gwerth addysgol teithiau o'r fath yn erbyn eu costau ariannol. Dylai hyn roi cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd rhan heb achosi stigma oherwydd cyfyngiadau ariannol neu ddiwylliannol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mewn ymateb i argymhellion 19, 23 a 25 mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu canllawiau ar godi tâl mewn ysgolion ac i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â gwisg ysgol, gan gynnwys cost a chostau ehangach anfon plant i'r ysgol. Bydd y camau gweithredu hyn yn egluro o dan ba amgylchiadau y caniateir i ysgolion godi tâl yn ôl y gyfraith, yn codi ymwybyddiaeth o dlodi plant ac yn hyrwyddo gwell cysondeb rhwng ysgolion. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnwys cyfeiriad at dlodi plant lle mae'n berthnasol i bwnc y canllawiau.

Mewn perthynas â phrydau ysgol, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y darperir cinio am ddim i'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dylai gwerth pryd ysgol am ddim gael ei bennu fel y gall disgyblion cymwys gael cinio dau gwrs safonol a diod. Os gall disgyblion adael safle'r ysgol adeg cinio, mae cystadleuaeth o ran prisiau gyda masnachwyr lleol, yn ogystal â chystadleuaeth o ran cinio pecyn. I annog disgyblion i fwyta deiet cytbwys iach, dylai awdurdodau lleol ac ysgolion anelu at gynnig pryd o fwyd cytbwys am bris atyniadol.

Ar 10 Tachwedd, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth statudol i ddatblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â thlodi plant, a datblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed. Bydd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cymreig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, baratoi a chyhoeddi strategaeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru, a thrwy hynny gynyddu pwysigrwydd a phroffil materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant ymhlith awdurdodau lleol a'u partneriaid.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 25**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'r canllawiau ynghylch costau teithiau ysgol i rieni a gofalwyr a'r cymorth sydd ar gael iddynt.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau yn 2010 ar godi tâl am weithgareddau ysgol - mae argymhelliad 19 yn cyfeirio at hyn.

**Goblygiad Ariannol:** Dim. Cyhoeddir y canllawiau ar godi tâl am weithgareddau ysgol yn electronig ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Argymhelliad 26**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu canllawiau i ysgolion ar hyfforddi a sefydlu aelod o staff fel swyddog cyswllt ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc, gyda chyfrifoldeb am fynd ati i nodi ac ymgysylltu gyda gofalwyr ifanc a gweithwyr cymorth, a chysylltu'n fewnol gyda staff addysgu eraill.**

**Ymateb: Derbyn**

**Ymateb:** Mae Dogfen Wybodaeth Rhif 013/03, *Gofalu am Ofalwyr Ifanc*, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2004, yn rhoi'r canllawiau presennol ar arfer da i ysgolion yng nghyswllt gofalwyr ifanc, ac yn cynnwys cyngor ar 'Enwebu athro cyswllt â chyfrifoldeb penodol dros ofalwyr ifanc'. Mae astudiaeth beilot a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn nodi bod Pecyn Hyfforddi Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan yr athrawon a oedd yn rhan o'r astudiaeth.

Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ynghylch Gofalwyr wedi bod drwy'r broses graffu ac wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad a'r Senedd. Dylai gael ei ystyried gan y Cyfrin Gyngor yn ystod Tachwedd 2009. Drafftiwyd y GCD hwn er mwyn cwmpasu gofalwyr ifanc a bydd cyfle hefyd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc drwy'r GCD ar wahân ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed. Mae'n dal yn rhy gynnar i ddisgrifio manylion yr hyn a allai gael ei gynnwys mewn Mesurau GCD drafft ynghylch Gofalwyr gan y Cynulliad yn y dyfodol neu i asesu eu goblygiadau ariannol llawn.

**Goblygiad Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 27**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o sefydlu mwy o ysgolion bro sydd wedi'u hariannu'n briodol a'u cynllunio'n dda gan ddechrau gydag ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol fawr.**

**Ymateb: Derbyn**

Dros y tair blynedd diwethaf mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio grant Ysgolion Bro i ddarparu gwasanaethau yng ngoleuni amgylchiadau lleol. Cyfarwyddwyd pob awdurdod i dalu sylw arbennig i ariannu datblygiadau sy'n cefnogi mentrau yn yr ardal, megis Rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Mentrau Blaenau'r Cymoedd a Rhaglenni Amcan Un.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod rhai awdurdodau lleol yn fwy blaengar nag eraill o ran datblygu agenda'r ysgolion bro. Mae pob awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd o ran gwella'r cyfleoedd sydd ar gael yn eu cymunedau. Mae cyllideb ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2010-2011 yn dangos cynnydd yn y cyllid a fydd yn cael ei dargedu tuag at adeiladu

ar y ddarpariaeth bresennol ac ystyried pa wasanaethau neu weithgareddau ychwanegol y gallai ysgolion a'u partneriaid eu datblygu, yn enwedig ym maes gofal plant. Wrth ystyried y gwasanaethau neu'r gweithgareddau ychwanegol hyn, mae awdurdodau lleol yn cynllunio ar sail gweledigaeth gyffredin rhwng pob partner a'r canlyniad gwirioneddol yw bod gwasanaethau a gweithgareddau yn anelu at godi lefel cyrhaeddiad disgyblion, gan ddarparu cyfleoedd dysgu ychwanegol i bob aelod o'r gymuned.

Mae canfyddiadau’r gwerthusiad annibynnol parhaus o Rhagori gan yr Uned Pobl a Gwaith wedi dangos pa mor bwysig ydyw i ysgolion ddatblygu ffocws cymunedol, er mwyn cefnogi addysg pobl ifanc yn effeithiol o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.  Yng ngoleuni'r dystiolaeth hon, mae awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol wedi cytuno y dylai datblygu ffocws cymunedol mewn ysgolion fod yn un o'r themâu allweddol ar gyfer gweithgarwch Rhagori yn 2009-2010.

Bydd y rhaglen buddsoddi cyfalaf ysgolion yn yr unfed ganrif ar hugain hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar integreiddio gwasanaethau cyhoeddus mewn ysgolion bro, lle y bo'n briodol.

**Goblygiad Ariannol:** Dim. Eisoes wedi ei gwmpasu o fewn cyllidebau presennol y rhaglen.